**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FERCHER, 22AIN MAI 2019 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Chris Hughes, Cadeirydd
Cynghorwyr N. Bastow (Dirprwy Maer), D. Howcroft, M. Jones, A. Khan, A. Pearson, M. Pickard.

**SWYDDOGION:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

**12/19 <u>Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd 2019/20:</u>**

***Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd C. Hughes i fod yn Gadeirydd a'r Cynghorydd K. Swindon yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn drefol 2019/20.***

**13/19 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Kealey, H. Meredith, P. Richards a K. Swindon

**14/19 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**15/19 <u>Cofnodion:</u>**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth 2019.***

**16/19 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>**

**a. Cofnod 428/18(d) - Lwfansau'r Aelodau:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CthEM) at Ysgrifennydd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn datgan y dylid trin Gwariant Sylfaenol a Lwfansau Gwariant y Maer fel 'lwfans cryno'. Gellir rhoi awdurdod i'r Cyngor Tref talu'r lwfansau heb dynnu'r dreth o dan PAYE trwy wneud cais am eithriad a chyflwyno tystiolaeth o wariant nodweddiadol (derbynebau er enghraifft).

Roedd y Clerc yn parhau i ddisgwyl am ymateb gan CthEM i'w chais am y fath eithriad.

***Penderfynwyd nodi ymateb cychwynnol CThEM a gofyn i'r Clerc adrodd yn ôl pan dderbynnir ymateb pellach gan CThEM.***

**b. Cofnod 439/18(b)(ii) – Rali Cymru GB:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan Alun Pritchard, Motorsport UK. Dywedodd Alun fydd Motorsport UK yn rhyngweithio gydag ysgolion lleol i son am y peryglon o yrru'n beryglus a sut gall pobl ifanc mwynhau'r profiad o yrru moduron ar gyflymdra uchel mewn amgylchedd dan reolaeth, a hefyd i ddangos peirianneg i'r disgyblion.

Mewn perthynas â'r 'mentrau gwyrdd', dyfarnwyd i Motorsport UK 'Cydnabyddiaeth Ragorol' am eu Cynaladwyedd Amgylcheddol gan FIA (corff llywodraethol y byd rasys Moduron), trwy gynnal gwaith megis: gostwng y lefel o danwydd a ddefnyddir gan swyddogion, rhoi 'cyngor gyrru gwyrdd' i wylwyr, sicrhau nad yw dyfrffyrdd cyfagos yn cael eu llygru; arbrofi tiroedd y maes gwasanaethau i archwilio am ddifwynyddion.

***Penderfynwyd nodi'r ymateb a gofyn i'r Clerc cysylltu â Rachael Gill, Trefyndd Digwyddiadau Conwy, ynglŷn â'r gweithgareddau arfaethedig yng nghanol y dref a gofyn iddynt ystyried y posibilrwydd o arddangos ceir trydan yn y dref.***

**17/19 Cyllid:**

**a.** ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnodau 23/3/2019 hyd at 31/3/2019 a 1/4/2019 hyd at 10/5/2019 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.***

**b.** ***Penderfynwyd derbyn y datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 30/4/2019, a rhoi awdurdod i'r Cadeirydd a'r Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol eu gwirio a'u llofnodi.***

**c.** Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, adroddiad diwedd y flwyddyn ar incwm a gwariant fel yr oedd ar 31/3/2019 a rhoddodd adroddiad ar lafar am y cyllidebau na chawsant eu gwario i'w trosglwyddo ymlaen o 2018/19, er mwyn cwblhau ambell i brosiect.

**ch** ***Penderfynwyd rhoi awdurdod i drosglwyddo ymlaen y cyllidebau canlynol o 2018/19 i 2019/20:***

***a) Grant Ieuenctid (Le Sport Junior Squash) – heb ei gadarnhau hyd yn hyn - £2,000***
***b) Goleuadau'r Nadolig - £2,150***
***c) Colwyn yn ei Blodau - £2,500***
***ch) Lwfansau Ward - £6,035***
***d) Lwfansau Aelodau (trosi'r hyn na wariwyd i grantiau bychan) - £2,414***
***dd) Offer Chwarae - £30,000***
***e) Cynllun Cymuned / Cynefin - £10,000***

**d** Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth oddi wrth CCLA parthed Adroddiad y Farchnad ar gyfer Mawrth 2019, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.***

**18/19 Llywodraeth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth / i gael ei ystyried:

**a.** Rhybudd am ymgynghoriad (wedi dod i ben) ar ystyried y cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2013.

***Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth a disgwyl am y cynigion yn y man.***

**19/19** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

**(a) Offer Chwarae:** Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, ateb gan Bryn Shiland parthed y diffyg gwariant ar drwsio / adnewyddu offer chwarae yn 2018/19. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc bod y Cyngor Tref wedi cynnwys £17,500 yn y gyllideb bob blwyddyn tuag at adnewyddu / trwsio offer chwarae. Am fod £30,000 wedi'i addo llynedd a heb ei wario hyd yn hyn gan GBSC, mae yna ymrwymiad o £47,500 tuag at y flwyddyn ariannol hon.

Fe nodwyd bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn dilyn archwiliad o'r holl offer chwarae ym mis Mai, ac yn dilyn hyn, fe ddarperir rhestr gwaith, yn seiliedig ar asesiadau risg, i ddangos pa feysydd chwarae / offer bydd yn rhaid blaenoriaethu arnynt ar draws y Sir. Maint cyllideb CBSC am offer chwarae eleni yw £214,000 a mynegodd yr Aelodau eu pryderon y byddai £47,500 y Cyngor Tref yn cael ei wasgaru trwy ardaloedd eraill y Sir. Gofynnodd yr Aelodau i'r Clerc cadarnhau gyda Bryn y dylai cost y gwaith a flaenoriaethwyd, yn cynnwys Bae Colwyn, ddod allan o gyllideb CBSC, ac yn dilyn hyn, gellir defnyddio'r swm a addawyd gan y Cyngor Tref ar gyfer gwelliannau difrys i offer chwarae o fewn ardal Bae Colwyn.

Dywedodd y Cynghorydd C. Hughes ei fod wedi derbyn diweddariad ynglŷn â'r safle yn Rhos ac fe ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o gael arian gan fuddsoddwyr preifat, cyllid mewnol (CBSC) a Llywodraeth Cymru, ond ni chanfuwyd bod unrhyw arian ar gael. Mae'r gwaith o ailddatblygu Rhos Point (o'r maes parcio / ochr ogleddol Abbey Road) yn parhau. Gofynnwyd a fyddai'r gwaith arwyneb y Pwll Ymdrochi wedi cael ei gwblhau erbyn yr haf, ac a fyddai £6,000 yn ddigon i gwblhau'r gwaith.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cadarnhau gyda Bryn Shiland bydd y gwaith ar y Pwll Ymdrochi wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn fel y datganwyd yn ei e-bost.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Clerc cadarnhau gyda Bryn bydd cyllideb CBSC yn cael ei ddefnyddio yn y lle cyntaf i wneud gwaith brys i drwsio offer chwarae ar draws y Sir, cyn i gyllid ychwanegol y Cyngor Tref cael ei defnyddio.***

**(b) Cynllun Buddsoddi yng Nghanol y Dref:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am Gynllun Buddsoddi Canol y Dref yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Mai. Cwblhawyd amryw o arolygon (topograffig, strydlun, deunydd gwasanaethau, anghenion parcio) i archwilio a fyddai'r cynigion cychwynnol yn gweithio, a'r cam nesaf oedd cael arbenigwr i baratoi cynlluniau.

Trafodwyd y llinell amser canlynol: cysyniad yr isadeiledd i'w gyflwyno i Fwrdd Byw yn y Bae ar 25ain Mehefin; yna fe gyflwynir y cynllun i'r Cyngor Tref cyn ei arddangos am ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngorffennaf / Awst. Yna, ym mis Medi, fe wneir cais i Lywodraeth Cymru am gyllid.

Y nod yw cael system drafnidiaeth un ffordd o gwmpas y dref i wella cylchrediad y traffig gyda thwmpathau ar y ffyrdd fel bo pobl yn gallu croesi ac i dawelu' r traffig. Fe osodir cafnau blodau / seddau mewn mannau strategol ar hyd Ffordd yr Orsaf a gwelliannau i gwrt blaen gorsaf y rheilffordd. Bydd y tanffordd i'r Promenâd yn cael ei gynnwys gyda'r posibilrwydd o osod deunydd celf i greu teimlad o 'man i'w rannu'.

Cafwyd trafodaeth am osod mapiau Canol y Dref mewn mannau allweddol, e.e. safleoedd bysus a'r orsaf trenau; trafodwyd arwyddion Croeso hefyd, ynghyd a'r posibilrwydd o greu delweddau o'r ardal.

Cafwyd diweddariad hefyd ar brosiectau cysylltiedig eraill: 7 Ffordd Abergele (AA Cash & Carry) disgwylir cwblhau erbyn mis Medi, gyda swyddfeydd a siopau; Imperial Buildings - cynllun am 21 o unedau preswyl a 3 uned fasnachol (yn ychwanegol at y 2 sy'n bodoli) ac fe ddisgwylir cais i Lywodraeth Cymru am arian grant a benthyciadau mis nesaf; safle Neuadd y Farchnad - y diddordeb a fynegwyd ar hyn o bryd yn cyfeirio at ddefnydd preswyl. Y posibilrwydd o gyfnewid gyda Rhodfa'r Tywysogion er mwyn cael maes parcio a fyddai'n well ar gyfer canol y dref; Marchnad Stryd - adnewyddwyd y caniatâd yn barod i gael gweithredwr preifat. Fe gynhwysir amod i sicrhau bydd yr ymddangosiad yn parhau i fod yn gyson.

***Penderfynwyd nodi adroddiad y Clerc.***

**20/19** **Technoleg Gwybodaeth (TG) y Swyddfa:**

(a) Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am ddigwyddiad diweddar ynglŷn â hen gyfrif e-bost oedd dan fygythiad yn gynnar ym mis Mai trwy weinydd Livetech. Gyda chymorth Microshade a Livetech, cafodd y broblem ei ddatrys ond fe amlygwyd nad oedd y diogelwch gwrth feirws presennol (Microsoft Essentials), a osodwyd yng nghyfrifiaduron y swyddfa, bellach yn cael ei gefnogi ac nad yw'n addas i'w ddefnyddio.

(b) Cyflwynodd y Clerc amcan bris i'w ystyried, i ddiweddaru diogelwch gwrth feirws y cyfrifiaduron i Kaspersky, am gost o £6 y mis (rheolir a'i fonitro gan Microshade, darparwr gwasanaethau TG presennol y Cyngor) ynghyd ag argymhelliad y dylid uwchraddio cyfrifiadur bwrdd gwaith gweinyddol i Windows 10.

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth hefyd am Yswiriant Diogelwch Seiber annibynnol i gynghorau lleol, am gost o £299 y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys 10 trwydded meddalwedd gradd fasnachol wrth feirws Avast. Trafodwyd gan yr Aelodau a oedd angen yr yswiriant ychwanegol, yn arbennig o gofio ymateb Zurich, cwmni yswiriant presennol y Cyngor Tref, oedd yn awgrymu nad oedd angen yswiriant ychwanegol (yn erbyn troseddau seiber).

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc uwchraddio'r diogelwch gwrth feirws i Kaspersky, trwy Microshade am gost o £6 y mis.***

Adroddodd y Clerc ymhellach bod angen uwchraddio cyfrifiadur desg gwaith i Windows 10 erbyn Ionawr 2020 a chafwyd amcan bris gan Computer World am £25. Fodd  bynnag, pan aed a'r PC i'r siop, cafod hwn ei godi i £170 oherwydd nam ar y gyriant caled, diffyg gofod cof a phyrth USB wedi torri. Am mai £399 yn unig oedd pris PC newydd, gyda'i awdurdod dirprwyol, prynodd peiriant newydd gyda mwy o gof ac yn cynnwys Windows 10 mwyaf diweddar.

***Penderfynwyd nodi bod cyfrifiadur desg gwaith personol newydd wedi cael ei brynu ar gyfer y swyddfa weinyddol am gost o £399 ag £20 am gof ychwanegol, ac i gadarnhau'r hyn a wnaed.***

**21/19** **Regalia Dinesig:**

(a) Cyflwynodd y Clerc amcan bris i gyflenwi pump o fedalau i Gyn Meiri am nad oedd stoc ar ôl.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod i archebu 5 (pump) o fedalau i Gyn Meiri gan Fatorini am gost o £1,530.25.***

(b) **Y Bwrdd Anrhydeddau:**

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod angen Bwrdd Anrhydeddau newydd a gofynnodd i'r Aelodau ystyried unrhyw grefftwyr lleol a fyddai'n barod / gallu cynnig amcan bris.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu â John Roberts, y cyn Clerc, i ofyn am fanylion y crefftwr a wnaeth y Bwrdd Anrhydeddau gwreiddiol. Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu â'r Cynghorydd A. Khan hefyd, os nad yw'r manylion gan John.***

**22/19** **Y Gofeb Rhyfel yng Ngerddi'r Frenhines:**

Cyflwynodd y Clerc amcan brisiau i'w ystyried,  i lanhau / adfer y gwaith efydd (y cerflun a'r placiau) ar y Gofeb Rhyfel.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â Chyngor Tref Llandudno i ofyn pryd cafodd Cofeb hwy ei adfer diwethaf ac i gysylltu â Farmers Bronze Restoration i edrych beth fyddai hyd oes y gwaith adfer.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i roi awdurdod dirprwyol i'r Clerc, mewn cysylltiad â'r Cadeirydd, i geisio amcan bris(iau) ychwanegol ac i ddewis yr un mwyaf  addas / cost effeithiol i lanhau / adfer y gwaith efydd yn rheolaidd.***

**23/19** **Lwfansau Ward Aelodau Lleol:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, y gyllideb ddiweddaraf am y flwyddyn ariannol newydd.

***Penderfynwyd nodi'r gyllideb ddiweddaraf.***

**24/19 Grantiau:**

Fe nodwyd y llythyrau o ddiolch / adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y canlynol a dderbyniodd grantiau:

(i) Urdd Ambiwlans St Ioan, Bae Colwyn
(ii) Siop Cynghori ar Fudd-daliadau
(iii) Student Windsurfing Nationals (Grant am Ddigwyddiad )
(iv) Clwb Criced Bae Colwyn (Grant am Ddigwyddiad)
(v) Yr Eisteddfod Genedlaethol
(vi) Clwb Rotari Llandrillo yn Rhos
(vii) Digwyddiadau Conwy (Grant am Ddigwyddiad – Prom Xtra)
(viii) Cymdeithas Arddangos Bryn y Maen

**25/19 Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol / Unigol Conwy a Sir Ddinbych - Addewid Gwyrdd:**

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych er gwybodaeth.

***Penderfynwyd dirprwyo awdurdod i'r Clerc i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y ddogfennaeth drafft erbyn y dyddiad cau, dydd Gwener 24ain Mai.***

**26/19 EITEM BRYS YCHWANEGOL: Yr Adeilad Cefn / 'Prom Ally':**

Fel eitem ychwanegol, ceisiodd y Clerc sylwadau'r Aelodau ar gais brys a dderbyniwyd yn gynharach heddiw, am storfa dros dro. Dywedodd y Clerc iddi dderbyn cais hefyd gan elusen fach leol (trwy CVSC) am storfa dros dro wrth iddynt ddisgwyl trosi i fod yn CIC a chael cyllid grant er mwyn iddynt allu ehangu / cael eiddo parhaol.

Sefydlwyd yr elusen i gynnig benthyciad o wisg prom i'r rhai nad oeddynt yn gallu fforddio gwisg o'r fath, ac felly yn colli allan ar fynd i'w prom. Bu'r elusen yn dioddef o lwyddiant ei hun gyda llif o wisgoedd newydd a dderbyniwyd ganddynt (tua 1500).

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod yna ystafell wag yn yr adeilad cefn (llawr cyntaf) y gellid ei ddefnyddio, a bod yr elusen yn gobeithio gwneud cais am grant fechan ar gyfer y costau gweithredol (NNDR / gwresogi / trydan).

Roedd yr aelodau yn gefnogol mewn egwyddor, ond fe gytunwyd rhaid i'r NNDR cael ei dalu a bod gan yr elusen ei yswiriant ei hun.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon ffurflen gais am grant fechan at y perchennog ac i geisio cadarnhad y byddant yn chwilio am safle sefydlog o fewn ardal Bae Colwyn.***

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 p.m.

....................................................Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30 P.M. ON WEDNESDAY 22ND MAY 2019**

**PRESENT**: Cllr Chris Hughes, Chairman
Cllrs: N Bastow (Deputy Mayor), D Howcroft, M Jones, A Khan, T Pearson M Pickard

**OFFICER**: Mrs C Earley, Town Clerk
Miss L Austin, Administrative Assistant

## 12/19 Election of Chairman and Vice-Chairman for 2019/20

***Resolved to re-elect Cllr C Hughes as Chairman and Cllr K Swindon as Vice-Chairman for the 2019/20 municipal year.***

## 13/19 Apologies for Absence:

The Chairman welcomed Members to the meeting. Apologies were received from Cllrs: K Swindon, A Kealey, H Meredith, P Richards.

## 14/19 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

## 15/19 Minutes:

***Resolved to approve and sign, as a correct record the Minutes of the last meeting, held on 27th March 2019.***

## 16/19 Matters Arising from the Minutes

### (a) Min. 428/18(d) – Members Allowances:

The Clerk submitted, for information, a response from HMRC to the Secretary of the North & Mid Wales Association of Local Councils, which stated that Basic Expenses and Mayors Expenses Allowances should be treated as a "round sum allowance". The Town Council could be authorised to make the allowance payments without deductions of tax under PAYE by applying for an exemption and providing evidence of typical expenses (for example, receipts).

The Clerk was still waiting for a response from HMRC to her request for such an exemption.

***Resolved to note the initial response from HMRC and request the Clerk reports back when a further response from HMRC is received.***

### (b) Min. 439/18(b)(ii) Wales Rally GB Event:

The Clerk submitted, for information, a response from Alun Pritchard, Motorsport UK. Alun stated that Motorsport UK would be engaging with local schools to talk about the dangers of dangerous driving, how youngsters could get into motorsport to

experience high speed driving in a controlled environment, and to also demonstrate engineering to the pupils.

In regards to the 'green initiatives', Motorsport UK were awarded the 'Accreditation for Excellence' for their Environmental Sustainability by FIA (world governing body for motorsport), by undertaking such work as: reducing the fuel consumption of officials, providing 'green driving tips' to spectators, ensuring no pollution occurs in waterways they pass by; undertaking ground testing at their service park to check for pollutants.

***Resolved to note the response and to request that the Clerk contacts Rachael Gill, Events Conwy, regarding the proposed town centre activities and to request that they consider the possibility of having electric vehicles on display in town.***

**17/19** **Finance**:

***(a) Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 23/3/2019 to 31/3/2019 and 1/4/2019 to 10/5/2019, as detailed in Schedule 'A' attached.***

***(b) Resolved to receive and authorise the Chairman and Clerk/RFO to check and sign the bank reconciliations as at 30/4/2019.***

(c) The Clerk tabled, for information, the year-end income and expenditure report, as at 31/3/2019 and gave a verbal report on the unspent budgets to be carried forward from 2018/19, to enable the completion of various projects.

***(d) Resolved to authorise the carrying forward of the following budgets from 2018/19 to 2019/20:***

- ***f) Youth Grant (Le Sport Junior Squash) - not yet confirmed - £2,000***
- ***g) Christmas Lights - £2,150***
- ***h) Colwyn in Bloom - £2,500***
- ***i) Ward Allowances - £6,035***
- ***j) Members Allowances (transfer unspent budget to small grants) - £2,414***
- ***k) Play Equipment - £30,000***
- ***l) Community/Place Plan - £10,000***

(e) The Clerk submitted, for information, correspondence from CCLA regarding the Market Report for March 2019.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**18/19** **Welsh Government:**

The Clerk submitted, for information/consideration the following correspondence:

**(a)** Notice of a consultation (now closed) on consideration of proposals to amend the Public Audit (Wales) Act 2013.

***Resolved to note the correspondence and await proposals in due course.***

## 19/19 <u>Conwy County Borough Council:</u>

**(a) Play Equipment**: The Clerk submitted, for consideration, a response from Bryn Shiland regarding the lack of expenditure on play equipment repairs/renewals in 2018/19. The Clerk reminded Members that £17,500 is budgeted by the Town Council each year towards replacement/renewal of play equipment. As £30,000 was committed last year, but not yet spent by CCBC, there is now £47,500 committed this financial year.

It was noted that a report will be submitted after a full inspection of all play equipment in May, after which a schedule of works, based on the risk assessments, would be generated to show which playgrounds/equipment across the County should be prioritised. The CCBC budget for play equipment this year is £214,000 and Members expressed concerns that the £47,500 from the Town Council would enable this to be dispersed throughout other areas of the County. Members requested that the Clerk contact Bryn to confirm that the priority works, including Colwyn Bay, should come from the CCBC budget, after which the Town Council committed amount could be used to cover other non-priority improvements to play equipment within the Colwyn Bay area.

Cllr C Hughes reported that he had received an update regarding the Rhos site and that funding from private investors, in-house (CCBC) and from the Welsh Government had been looked at, but at the moment no money had been identified. The redevelopment of Rhos Point (from the car park/Abbey Road north) is still in development. It was queried whether the Paddling Pool surfacing works would be completed by summer, and whether the £6,000 would be enough to complete the works.

***Resolved to request the Clerk confirms with Bryn Shiland that the Paddling Pool works will be completed by the end of the month, as stated in his email.***

***Further resolved to request the Clerk confirms with Bryn that CCBC budget is used first on all urgent repairs to playground equipment across the County, before the Town Council's additional funds are used.***

**(b) Town Centre Investment Plan:**

The Clerk gave a verbal report on the Town Centre Investment Plan following a meeting on the 21st May. Various surveys had been completed (topographical, street-scene, utility apparatus, parking requirement) to investigate if the initial proposals would work, and the next stage was to procure a consultant to draw up plans.

The following timeline had been discussed: the infrastructure concept was to be shown to the Bay Life Board on 25th June; the plan would then be brought to the Town Council before being shared in a public consultation in July/August. Welsh Government funding would then be sought in September.

The aim is for one-way system to get traffic circulating around town; with wider pavements and raised humps to allow people to cross and to calm traffic. There would be strategic placement of planters/seating along Station Road and improvements to the station forecourt. The underpass to the Prom would be included with potential art installations to create a 'shared space' feel.

There had been a discussion about Town Centre maps at key locations, e.g. bus stops and at the station; Gateways signs had also been discussed, together with potential images of the area.

An update had also been given on other linked projects: 7 Abergele Rd (AA Cash & Carry) was expected to be completed by September, with office accommodation and retail space; Imperial Buildings – planning for 21 residential units and 3 new commercial (plus 2 existing) with Welsh Government application expected next

month for grant and town centre loan monies; Market Hall site – expressions of interest being driven by residential use at the moment. Potential to swap with Princes Drive to get better located parking for town centre; Street Market – consent renewed ready to go out to find private operator. There will be a condition attached to ensure consistency of appearance.

***Resolved to note the Clerk's report.***

## 20/19 Office IT:

**(a)** The Clerk gave a verbal report regarding a recent issue with an old e-mail account which was compromised in early May via the Livetech server. With help from Microshade and Livetech the issue was resolved but did highlight that the current anti-virus protection (Microsoft Essentials) installed on the office computers is no longer supported and now not fit for use.

**(b)** The Clerk submitted, for consideration, a quotation to upgrade the anti-virus protection on the PC and laptop to Kaspersky, at a cost of £6pm (managed/ monitored by Microshade, the Council's existing IT services provider) and a recommendation to upgrade the admin desktop PC to Windows 10.

The Clerk also submitted information about standalone Cyber Security Insurance for local councils, at a cost of £299 per annum, which included 10 x Avast commercial grade anti-virus software licences. Members discussed whether the additional insurance was required, especially considering a response from Zurich, the Town Council's current insurance provider, which suggested that extra insurance (against cyber-crime) was not necessary.

***Resolved to request the Clerk upgrades the anti-virus protection to Kaspersky, via Microshade, at a cost of £6pm.***

The Clerk further reported that the desktop PC required upgrading to Windows 10 by January 2020 and a quote from Computer World for £25 had been obtained. However, this had increased to £170 when the PC went into the shop, due to a faulty hard drive, poor memory space and broken USB ports. As a new PC was only £399, the Clerk reported to the Committee that she had used her delegated powers to purchase a new machine, with increased memory and including the Windows 10 upgrade.

***Resolved to note and endorse the purchase of a new desktop personal computer, for the admin office, at a cost of £399, plus £20 for additional memory.***

## 21/19 Civic Regalia:

**(a)** The Clerk submitted a quotation for the supply of five more Past Mayor's medals, due to no stock remaining.

***Resolved to authorise an order for 5 (five) Past Mayor's medals at a cost of £1,530.25 from Fattorini.***

**(b) Honours Board:**

The Clerk advised Members that a new Honours Board is required and asked Members to consider any local tradesmen who may be willing/able to provide a quotation.

***Resolved to request the Clerk contacts John Roberts, the previous Clerk, to seek to obtain the details of the tradesman who originally provided the Honours Board. Clerk also to contact Cllr A Khan, if John is unable to provide details.***

## 22/19 War Memorial in Queen's Gardens:

The Clerk submitted, for consideration, quotations for the cleaning/restoration of the bronzework (statue and plaques) at the War Memorial.

***Resolved to request the Clerk contacts Llandudno Town Council to see how long it's been since they had their Memorial restored. Contact Farmers Bronze Restoration to check lifespan of their restoration.***

***Further resolved to then delegate to the Clerk, with liaison with the Chair, to seek to obtain an additional quote(s) and select the most appropriate/cost effective solution company for the routine cleaning/restoration of the bronze-work.***

**23/19 Local Members Ward Allowances:**

The Clerk submitted, for information, the updated budget for the new financial year.

***Resolved to note the updated budget.***

**24/19 Grants:**

It was noted that letters of thanks have been received from the following grant recipients:

(i) Colwyn Bay St John Ambulance
(ii) Benefit Advice Shop
(iii) Student Windsurfing Nationals (Event Grant)
(iv) Colwyn Bay Cricket Club (Event Grant)
(v) National Eisteddfod
(vi) The Rotary Club of Rhos on Sea
(vii) Events Conwy (Prom Xtra Event Grant)
(viii) Bryn y Maen Exhibition Society

**25/19 Conwy & Denbighshire PSB Community/Individual Green Pledge:**

The Clerk submitted for information the C&D PSB information.

***Resolved to delegate authority to the Clerk to submit any comments on the draft documentation by the Friday 24th May deadline.***

**26/19 *ADDITIONAL URGENT ITEM:* Rear Annexe / 'Prom Ally'**

As an additional item, the Clerk sought members' views on an urgent request for temporary storage space, received earlier today. The Clerk advised Members that a request had been received from a small local charity (via CVSC) for some temporary storage space while they were awaiting conversion to a CIC and grant funding to expand/obtain permanent premises.

The charity had been set up to provide the free loan of prom dresses/suits to those who are unable to afford an outfit, and who would otherwise not be able to attend their prom. The charity had since been a victim of its own success and been inundated with donations of new dresses (approx. 1500).

The Clerk advised Members that there was a vacant room in the rear annexe (first floor) which could be used, and that the Charity also hoped to apply for a

small grant to cover the operational (NNDR/heating/electricity) costs.

Members were supportive in principle, but agreed that NNDR must be covered and that the charity must have its own insurance.

***Resolved to request the Clerk sends the owner an application form for a small grant and seeks confirmation that they will be looking for a permanent base within the Colwyn Bay area.***

The meeting closed at 7.55pm.

……………………………Chairman